Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 25.04.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# COVID-19: Rhestr wirio ar gyfer busnesau, cyflogwyr a threfnwyr digwyddiadau

Yn dilyn y newid i reoliadau coronafeirws ar 18 Ebrill 2022, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau wedi eu diweddaru i fusnesau. Mae rhestr wirio i helpu busnesau, cyflogwyr a threfnwyr digwyddiadau ystyried pa fesurau rheoli sy'n dal i fod yn gymwys ar gael ar:

https://llyw.cymru/rhestr-wirio-mesurau-rheoli-iechyd-y-cyhoedd-ar-gyfer-busnesau-cyflogwyr-threfnwyr-digwyddiadau

# RECRIWTIO: Ffair Swyddi Gwaith Gwynedd Bangor

Bydd menter Cyngor Gwynedd, Gwaith Gwynedd – mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) – yn cynnal ffair swyddi ym Mangor ar gyfer pob sector ddiwedd mis Mai 2022. Os ydych yn recriwtio ac yn dymuno cymryd rhan, cysylltwch ar 01286 679211 neu gwaithgwynedd@gwynedd.llyw.cymru

Yn y cyfamser gallwch hefyd hysbysebu unrhyw swyddi gwag ar hysbysfwrdd Gwaith Gwynedd:

https://www.facebook.com/groups/1169426113501265

# TECH: Gweithdai FFIWS Caernarfon 26/28 Ebrill 2022

Cynhelir dau weithdy yr wythnos yma yng ngofod gwneud Ffiws dros dro M-SParc #ArYLôn yn 18 Stryd y Plas, Caernarfon:

- ar 26 Ebrill 2022 gallwch ddysgu sut i ddefnyddio amrywiaeth o offer – gan gynnwys argraffwyr 3D, torwyr laser a dyfeisiau sublimation. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i: https://bit.ly/3xQJOIU

- ar 28 Ebrill 2022 gallwch ddysgu am ffotograffiaeth Cyanotype – yn canolbwyntio ar ddelweddau o blanhigion a blodau. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i: https://bit.ly/3ka6kEA

Mae gwybodaeth pellach am Ffiws ar:

http://www.m-sparc.com/cy/ffiws

# DIGWYDDIAD: Digwyddiad rhwydweithio busnes yn Nolgellau

Cynhelir digwyddiad brandio, marchnata, cyfryngau cymdeithasol a rhwydweithio ar gampws Grŵp Llandrillo Menai yn Nolgellau ar 27 Ebrill 2022. Bydd y digwyddiad yn cynnwys gweithdai yn ogystal â ffair fusnes fechan gydag amrywiaeth o wasanaethau cefnogi busnes ar gael i ateb cwestiynau a chynnig cyngor. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3uVukQT

Neu cysylltwch ar: 08445 460460 / busnes@gllm.ac.uk

## DIGWYDDIAD: Canolfan Cydweithredol Cymru – Adeiladu Economïau Lleol Cryfach 27 Ebrill 2022

Cynhelir cyfarfod grŵp trawsbleidiol ar gyfer Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol, i drafod sut i adeiladu economïau lleol cryfach, ar 27 Ebrill 2022. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3vbkuvp

## DIGWYDDIAD: Busnes Cymdeithasol Cymru – Dechrau Rhywbeth Da 27 Ebrill 2022

Mae'r cwrs ar-lein pedair wythnos, Dechrau Rhywbeth Da, ar agor i unrhyw un sydd yn y cam syniadau, sydd â diddordeb mewn dysgu am gychwyn busnes sydd ag elw er daioni, pobl a'r blaned yn sylfaen iddo. Cynhelir y sesiwn cyntaf o bedwar ar 27 Ebrill 2022. Mae mwy o wybodaeth a manylion cofrestru ar gael ar:

https://bit.ly/3rLHzCL

## CYFLOGAETH: Rhyddhad Yswiriant Gwladol wrth gyflogi cyn-filwyr

O 6 Ebrill 2022, nid oes rhaid i gyflogwyr dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfer cyn aelodau o luoedd arfog y DU yn eu blwyddyn gyntaf o gyflogaeth sifil. Gall busnesau hefyd hawlio’r rhyddhad hwn yn ôl-weithredol ar gyfer unrhyw weithwyr cymwys a gyflogwyd ganddynt yn ystod y 12 mis diwethaf. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3vGocMS

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i’w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru